BT Group

In partnership with AbilityNet

# Symud i Llais Digidol, gwasanaeth ffôn cartref BT

**Llais Digidol yw gwasanaeth ffôn cartref newydd BT, sy'n cael ei bweru drwy eich cysylltiad â'r rhyngrwyd. Ni all yr hen rwydwaith y mae'r rhan fwyaf o ffonau cartref yn gweithio arno heddiw gadw i fyny â gofynion bywyd modern felly bydd yn cael ei gyfnewid a'i droi i ffwrdd i bob darparwr ffonau erbyn 2027.**

**Yn y canllaw hwn, byddwn yn dangos i chi sut y gallwch symud yn ddidrafferth i'r platfform newydd hwn.**

* Gall cyfarwyddiadau amrywio yn ôl model eich dyfais.

## Beth fyddwch chi'n ei ddysgu

1. Beth fydd yn newid gyda chyflwniad Llas Digidol
2. Sut i newid i Llais Digidol

## Sut fydd Llais Digidol yn effeithio arnoch chi

I lawer o bobl, mae ffôn cartref yn parhau i fod yn declyn hanfodol arar gyfer cadw mewn cysylltiad â ffrindiau neu anwyliaid.

Os yw hyn yn wir i chi, ac os ydych eisiau parhau i gadw a defnyddio eich ffôn cartref (os ydych gyda BT neu lawer o ddarparwyr eraill) rhaid i chi newid i Llais Digidol erbyn 2027. Ni fydd yn costio mwy i chi a chyn belled â bod ganddo sŵn deialu, gallwch gadw'r ffôn yr ydych yn ei ddefnyddio yn awr: yn syml, bydd y newid i Llais Digidol yn gwella ansawdd eich llinell.

Bydd BT, neu eich darparwr gwasanaeth, yn cysylltu â chi'n ysgrifenedig fwy na thebyg cyn y diwrnod newid gyda digon o wybodaeth a rhif i gysylltu ag ef os bydd gennych unrhyw gwestiynau neu anghenion ychwanegol. Gallant hefyd enwebu ffrind neu aelod o'ch teulu i'ch helpu i siarad drwy'r newid.

Os nad oes gennych fand eang yn eu cartref, bydd eich darparwr gwasanaeth yn cysylltu â chi gyda rhai opsiynau gwahanol i chi – yn ysgrifenedig fwy na thebyg.

### Beth os bydd toriad yn y pŵer?

Os bydd toriad yn y pŵer neu os bydd eich band eang yn methu, ni fyddwch yn gallu gwneud unrhyw alwadau drwy ddefnyddio Llais Digidol, gan gynnwys galwadau 999.

Byddwch yn parhau i allu defnyddio ffôn symudol, a dyna pam ei bod mor bwysig i chi wneud yn siŵr bod eich dyfais wedi'i gwefru bob amser. Os nad oes gennych chi ffôn symudol neu os ydych mewn ardal heb signal ffôn symudol, a BT yw eich darparwr gwasanaeth, dywedwch wrthyn nhw ffonio 0800 800 150 ar ôl i chi gael gwybod pryd y bydd eich diwrnod newid i Llais Digidol.

Os ydych yn gwsmer sydd angen cymorth ychwanegol, efallai y cewch gynnig uned batri wrth gefn neu ffôn hybrid a all newid i rwydwaith symudol gyda batri mewnol i'w gadw wedi'i gysylltu am gyfnod byr os oes toriad yn y pŵer i wneud yn siŵr y gallwch barhau i wneud galwadau.

BT Group

In partnership with AbilityNet

# Symud i Llais Digidol, gwasanaeth ffôn cartref BT parhad

### Beth os oes gennyf larwm gwddf gofal iechyd neu larwm lladron?

Mae BT yn gweithio'n agos gyda Teleofal a darparwyr larymau i wneud yn siŵr eu bod yn gwybod pwy sy'n defnyddio pa gyfarpar. Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr nad yw pobl yn cael eu symud cyn y bydd eu darparwr cyfarpar yn barod. Felly, os oes gennych larwm gwddf gofal iechyd neu larwm lladron, cysylltwch â'ch darparwr teleofal neu larwm (bydd eu rhif ffôn a'u manylion cysylltu ar eu gwefan, Google neu fil diweddar) a allai ofyn i chi gysylltu â BT i roi gwybod iddyn nhw pa gyfarpar rydych chi'n ei ddefnyddio.


### Sut i wneud y newid

Cysylltir â chi pan ddaw'n amser newid a byddwch yn cael llawer o wybodaeth i'ch helpu i baratoi ar gyfer hyn.

I'r rhan fwyaf o bobl, mae'n syml newid i Llais Digidol

1. Bydd angen i chi ddad-blygio eich ffôn o'r soced wal y mae wedi'i blygio i mewn iddo yn awr).
2. Nesaf, dylech ei roi i mewn yn y porth gwyrdd yng nghefn eich llwybrydd Wi-fi (dyma'r ddyfais sy'n pweru'r rhyngrwyd yn eich cartref – gweler y diagram isod). Os bydd sticer du yn ei orchuddio, bydd angen i chi ei dynnu i ffwrdd i ddechrau. a.

   Os nad yw eich llwybrydd mewn lleoliad da (gallai fod o dan y grisiau, er enghraifft) gallwch ofyn am addasydd am ddim sy'n plygio i mewn i soced trydanol. Gallwch blygio eich ffôn mewn i hwnnw, a bydd yn cysylltu'n ddi-wifr gyda'r llwybrydd.
3. Oherwydd bod y system yn mynd yn ddigidol, bydd angen i chi ychwanegu codau ardal i rifau ffôn. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi ddiweddaru'r rhifau rydych chi wedi'u cadw gyda chodau ardal (y cod ardal 4 neu 5 rhif sydd eu hangen ar gyfer llinellau tir y DU – er enghraifft, Manceinion yw 0161, Birmingham yw 0121, Caeredin yw 0131, Glasgow yw 0141).
4. Ar ôl i chi ychwanegu/diweddaru rhifau, bydd eich ffôn yn barod i chi ei ddefnyddio.




## Dolenni i ddysgu pellach

I gael gwybodaeth am sut mae newid i Llais Digidol, gallwch chi wylio'r fideo defnyddiol hwn: https://youtu.be/6f9UIOOlv_E

Mae'r wefan hon yn cynnwys rhagor o arweiniad ar beth ydy Llais Digidol a sut gallai effeithio arnoch chi: https://www.bt.com/broadband/digital-voice

Os yw'r daflen hon wedi cael ei hargraffu, bydd angen i chi deipio'r cyfeiriadau gwe llawn yn y bar chwilio ar eich porwr gwe. Os yw'n edrych fel bod bwlch yn y cyfeiriadau uchod y bydd angen i chi deipio tanlinell _ yn ei le.